



Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) 2019 - 2022 – Cynllun Gweithredu

Bydd yr ASB yn cael ei monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, yn unol â'r Cynllun Gweithredu hwn. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r prif fanylion gweithredu mewn perthynas â'r ymrwymïadau a wnaed yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr ASB.

Canlyniadau

Dros gyfnod y Cynllun, y bwriad yw sicrhau bod y ffrydiau gwaith canlynol yn parhau i gydymffurfio'n llawn â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

- i. Gwefannau
- ii. Cynnwys y cyfryngau cymdeithasu
- iii. Cyhoeddiadau/adroddiadau/ymgyngoriadau
- iv. Cysylltu â'r cyfryngau yng Nghymru
- v. Ymgyrchoedd recriwtio
- vi. Gohebiaeth
- vii. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yr ASB

Bydd yr Uned Iaith Gymraeg (UIG) yn darparu'r gwasanaethau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth:

- Gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig (Yn bennaf Saesneg > Cymraeg, ac o bryd i'w gilydd Cymraeg > Saesneg)
- Gwasanaeth prawfddarllen ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg, deunyddiau hyrwyddo ac ati, a gwasanaeth gwirio testun i staff sy'n dymuno drafftio gohebiaeth ac ati, yn Gymraeg
- Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a gynhelir yng Nghymru (Cymraeg > Saesneg)
- Gwasanaeth Cymraeg i'r cyfryngau
- Datblygu a chynnal Cronfa Ddata Derminoleg
- Lanlwytho cynnwys Cymraeg ar wefannau'r ASB yn ôl yr angen a diweddarau cynnwys Cymraeg bob dydd
- Rheoli cynnwys cyfryngau cymdeithasu Cymraeg yr ASB
- Rhoi cyngor ar Gynllun Iaith Gymraeg yr ASB
- Cynnal perthynas waith agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg
- Archwilio'r holl waith a wneir ar ran yr ASB gan drydydd partion

1) Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cyflenwi	Dyddiad targed
<p>(a) Mynd ati i gyhoeddi a chodi ymwybyddiaeth o'r ymrwymadau a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg newydd yr ASB ('y Cynllun') drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddatblygu cynllun cyfathrebu mewnol ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg newydd • Cynllunio a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb ar draws yr ASB • Cynllunio a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth dddigidol ar draws yr ASB • Cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg newydd ar wefan gyhoeddus yr ASB, www.food.gov.uk 	<p>Uned Iaith Gymraeg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynllun cyfathrebu mewnol – Ebrill 2019 • Cwblhau cam 1 o'r Ymgyrch Codi Ymwybyddiaeth swyddogol (yn ASB Cymru) – Mai 2019 • Cam 2 i'w gynnal ar draws holl swyddfeydd a thimoedd eraill yr ASB – erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020 • Targedu Grŵp Gweithrediadau – erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020 • Cynnwys polisi Iaith Gymraeg yng Nghynllun Sefydlu Corfforaethol yr ASB i staff newydd – ar unwaith ac yn barhaus • Diweddarau ffynonellau gwybodaeth mewnol o ran y Cynllun newydd (e.e. y fewnrwyd, Yammer, llawlyfr rheolwyr llinell) – ar unwaith ac yn barhaus • Cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar y wefan gyhoeddus – ar unwaith ac yn barhaus

(b) Swyddogion polisi a thîm cyfathrebu'r ASB i gysylltu ag Uned Iaith Gymraeg yr ASB i sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw dyledus wrth weithio ar adnoddau a/neu wasanaethau newydd (e.e. cynnwys ar gyfer y we, gohebiaeth â rhanddeiliaid, ymgynghoriadau).	Holl dimoedd perthnasol yr ASB / Tîm Cyfathrebu'r ASB / Uned Iaith Gymraeg yr ASB	Yn ystod yr holl brosesau cwmpasu/datblygu perthnasol
(c) Hyrwyddo'n weithredol adnoddau Cymraeg yr ASB fel yr amlinellir ym Mhwynt 4.3 y Cynllun	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(d) Monitro gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon ar ran yr ASB mewn perthynas â'r Gymraeg	Swyddogion Polisi / Uned Iaith Gymraeg yr ASB	Parhaus
(e) Cysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus

2) Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb cyflenwi	Dyddiad targed
(a) Gohebiaeth		
(i) Atgoffa adrannau'r ASB sy'n gweithredu yng Nghymru o'r angen i gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.	Holl dimoedd perthnasol yr ASB / Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(ii) Sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael eu cyhoeddi yr un pryd.	Holl dimoedd perthnasol yr ASB / Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(iii) Darparu templedi/terminoleg hanfodol ar lwyfannau a rennir ar gyfer staff yr ASB yng Nghymru. Cyfieithu llofnodion awtomatig/ymatebion allan o'r swyddfa ac ati.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus

(b) Cyfathrebu dros y ffôn		
(i) Darparu gwasanaeth dwyieithog llawn ar y brif linell ffôn yng Nghymru. Dargyfeirio galwadau fel y bo'n briodol, yn unol â'r dewis iaith a natur yr ymholiad.	Tîm Cymorth Busnes	Parhaus
(ii) Sicrhau bod staff yng Nghymru yn ateb eu galwadau ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog (bore da/prynhawn da) a'u bod yn gyfarwydd â'r weithdrefn ar gyfer cynnig gwasanaeth Cymraeg. Sicrhau bod negeseuon llais yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog (llinell dir a ffôn symudol)	Staff ASB Cymru/Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(c) Cyfarfodydd yng Nghymru		
(i) Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(d) Rhaglen ymgysylltu ag ysgolion		
(i) Sicrhau bod unrhyw ddeunydd Cymraeg a darpariaeth ar gyfer ysgolion yng Nghymru (gan gynnwys theatr mewn addysg, Crucial Crew a Castell Coginio) o'r un ansawdd â'r Saesneg. Byddwn ni hefyd yn monitro cynnwys Cymraeg yn gyson i sicrhau cysondeb ac ansawdd.	Tîm Cymorth Busnes / Uned Iaith Gymraeg	Uned Iaith Gymraeg i gyfieithu/sicrhau ansawdd sgriptiau a deunyddiau, a mynd i weld cynyrchiadau bob chwarter er mwyn monitro ansawdd
(e) Gweithgareddau cyhoeddusrwydd/gwaith cyfathrebu/cysylltu â'r cyfryngau		
(i) Sicrhau negeseuon cyson yn Gymraeg/Saesneg ar draws holl waith cyfathrebu'r ASB gyda phob ymgyrch ledled y Deyrnas Unedig (DU).	Uned Iaith Gymraeg / Tîm Cyfathrebu	Parhaus
(ii) Cynnwys yr Uned Iaith Gymraeg mewn cyfarfodydd creadigol a chynllunio ar gyfer gweithgarwch cyhoeddusrwydd i gynghori ar faterion Cymraeg yn ystod	Uned Iaith Gymraeg / Tîm Cyfathrebu	Yn gyson ym mhob ymgyrch gyhoeddusrwydd

y cam cynllunio, yn unol ag ymrwymiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg.		
(iii) Darparu cyfweiliadau Cymraeg â'r cyfryngau er mwyn hyrwyddo mwy ar negeseuon allweddol yr ASB yn Gymraeg.	Uned Iaith Gymraeg / Tîm Cyfathrebu	Yn ystod ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, fel y cynghorir gan Dîm Cyfathrebu'r ASB
(iv) Archwilio sianeli hyrwyddo newydd ar gyfer cyfathrebiadau'r ASB e.e. Mentrau iaith, papurau bro, rhaglenni teledu a radio, sianeli cyfryngau cymdeithasu.		Parhaus
(f) Digwyddiadau cyhoeddus		
(i) Ni chaiff yr ASB drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd cyhoeddusrwydd, arwyddion, gwybodaeth, trefniadau staffio a'r cymorth a ddarperir i bobl mewn digwyddiad cyhoeddus a drefnir yng Nghymru, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig.	Y Tîm Cyfathrebu (Cymru) sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau yng Nghymru / Uned Iaith Gymraeg (i roi cyngor ar yr holl ddeunydd perthnasol a'i gyfieithu yn ogystal â goruchwylio trefniadau staffio dwyieithog)	Parhaus
(g) Cyhoeddiadau		
(i) Codi ymwybyddiaeth staff ynghylch pryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog neu rai Cymraeg a Saesneg ar wahân.	Uned Iaith Gymraeg	Cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg ar fewnrwyd yr ASB, yn y Safonau Gwasanaeth ac yn rhan o'r Sesiwn Sefydlu Gorfforaethol – ar unwaith
(h) Gwasanaethau digidol		
(i) Sicrhau bod unrhyw gynnwys newydd ar brif wefan cyhoeddus yr ASB yn cael ei fflagio i'w gyfieithu er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith, a hynny drwy greu swyddogaeth fflagio o fewn y System Rheoli Cynnwys.	Uned Iaith Gymraeg / Tîm Digidol	Rhagfyr 2019

(ii) Asesu gofynion Cymraeg wrth ddatblygu a diweddarau systemau TG ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Digidol/tîm perthnasol yn yr ASB sy'n datblygu gwasanaeth neu system newydd.	Parhaus – gofyniad i'w amlinellu ar fewnwyd yr ASB, yn y Safonau Gwasanaeth ac yn rhan o'r Sesiwn Sefydlu Gorfforaethol – ar unwaith
(i) Y cyfryngau cymdeithasu		
(i) Sefydlu a chytuno ar weithdrefn fewnol ar gyfer sicrhau y caiff negeseuon perthnasol eu postio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasu yn Nghymru.	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Cyfathrebu	Mawrth 2019
(ii) Wrth greu sianeli cymdeithasol newydd, neu wrth ddatblygu sianeli presennol, ystyried y gofynion a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau gwasanaeth cyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Cyfathrebu	Parhaus
(j) Terminoleg		
(i) Parhau i ddatblygu geirfa safonol yr ASB o derminoleg diogelwch/safonau bwyd Cymraeg a lanlwytho i'r gronfa ddata derminoleg genedlaethol, Porth Termau	Uned Iaith Gymraeg/Canolfan Technoleg Iaith (Canolfan Bedwyr), Bangor	Parhaus
(ii) Hyrwyddo'r derminoleg hon gyda'r holl randdeiliaid perthnasol (e.e. addysgwyr Cymraeg, cyfieithwyr, terminolegwyr, y cyhoedd)	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(iii) Cyhoeddi'r eirfa hon ar wefan yr ASB, www.food.gov.uk	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Digidol	Rhagfyr 2019

(3) Recriwtio

(i) Monitro prosesau recriwtio yng Nghymru i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a amlinellwyd yn y Cynllun Iaith Gymraeg.	Cyfarwyddwr Cymru/ Uned Iaith Gymraeg/Arweinwyr Tîm Perthnasol	Parhaus
---	--	----------------

(ii) Datblygu fframwaith ar gyfer asesu a phennu lefel y sgiliau Cymraeg sydd ei hangen ar gyfer swyddi yn ASB Cymru.	Cyfarwyddwr Cymru/ Uned Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2019
(iii) Os pennir bod y Gymraeg yn faen prawf 'Hanfodol' ar gyfer swydd yn dilyn ymgynghoriad (pwynt 7.3 y Cynllun Iaith Gymraeg), cynghori ar y lefel sydd ei hangen gan ddefnyddio'r fframwaith hwnnw.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(iv) Sicrhau bod hysbysebion/hysbysiadau recriwtio a pheynnau ymgeisio ar gyfer swyddi yng Nghymru yn cael eu darparu'n ddwyieithog (o fewn cyfyngiadau gwefan recriwtio'r Gwasanaeth Sifil) a bod yr holl hysbysebion/hysbysiadau a rennir â'r cyfryngau yng Nghymru yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Arweinydd Tîm sy'n recriwtio/Adnoddau Dynol yr ASB/Uned Iaith Gymraeg	Parhaus

(4) Gweithredu, monitro ac adrodd

(i) Yn unol â'n hymrwymadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg (7.13-7.15), nodi a hwyluso Hyfforddiant Iaith Gymraeg priodol yn ôl yr angen.	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Cymorth Busnes	Parhaus
(ii) Darparu bathodynau/cortynnau Iaith Gwaith a deunyddiau eraill cysylltiedig i aelodau staff sy'n dymuno cynnig gwasanaeth Cymraeg.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(iii) Pan fydd yr ASB yn gwneud trefniadau gyda thrydydd partion/gweithio mewn partneriaeth, monitro'r trefniadau yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â gofynion monitro eraill.	Uned Iaith Gymraeg	Parhaus
(iv) Monitro cynnydd yr ASB wrth fodloni ymrwymadau'r Cynllun yn erbyn y nodau mesuradwy a amlinellir yn y cynllun gweithredu hwn. Cofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r ymrwymadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.	Uned Iaith Gymraeg	Yn Adroddiad Monitro Blynyddol yr ASB i Gomisiynydd y Gymraeg.
(v) Cwblhau adroddiad hunanasesu a'i anfon at Gomisiynydd y Gymraeg (Adroddiad Monitro	Rheolwr y Gymraeg	Bob blwyddyn

Blynyddol) yn gwerthuso ein cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun.		
(vi) Cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol yr ASB ar wefan gyhoeddus yr Asiantaeth, www.food.gov.uk	Uned Iaith Gymraeg/Tîm Digidol	Bob blwyddyn
(vii) Adolygu Cynllun Iaith Gymraeg yr ASB mewn tair blynedd o'i weithredu gyntaf a thrafod unrhyw newidiadau gyda Chomisiynydd y Gymraeg.	Uned Iaith Gymraeg	Mawrth 2022